Rhifyn Mehefin 9/7/14 14:20 Page 1

YR ANGOR
PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION
'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

CYF. 36. RHIF 1 MEHEFIN 2014 50c

# CAPEL CYMRAEG CROSFIELD STREET WARRINGTON

Daeth oddeutu 50 o bobl i ymuno a ni ar bnawn Sul 13eg Ebrill ar yr achlysur o ddod â'r achos yng Nghapel Cymraeg Crosfield Street yn Warrington i ben. Croesawyd y gynulleidfa i'r gwasanaeth gan y Parchedig Eleri Edwards a fu'n weinidog ar yr Eglwys ers 2004. Roedd y mwyafrif o'r ymwelwyr wedi dod o Fanceinion ag Altrincham - mewn bws - i gynrychioli Henaduriaeth Manceinion. Eraill wedi dod o Lerpwl a phellafoedd Gogledd Cymru.

Rhoddwyd anerchiad byr am yr achos yn Warrington ers ei sefydlu ym 1884 gan y Parchedig Peter Wyn Williams a fu'n aelod yn y Capel am rai blynyddoedd. Ef hefyd a gyhoeddodd, rai blynyddoedd yn ôl, y llyfryn 'Hanes Eglwys Bresbyteraidd Cymraeg Warrington - Yn Cynnwys Canmlwyddiant Adeilad Crosfield Street'.

Traddodwyd y bregeth gan Mr Walter Glyn Davies o Ynys Môn, pregethwr a gynhaliodd oedfaon yn y Capel ers dros ddeugain mlynedd.

*Testun ei bregeth ragorol oedd - 'Ffynhonnau' ag ychydig o sylwadau o'i bregeth. Does gen i ddim nodiadau!!*

Cafwyd canu grymus yn ystod yr oedfa i gyfeiliant Mr Trefor Davies o Urmston. Derbyniwyd nifer o negeseuon, yn cynnwys rhai o dramor, yn dwyn atgofion o'r profiadau a gafwyd gan bobl o fod yn rhan o fywyd y Capel dros y blynyddoedd a'r dylanwad cafodd hyn ar lwybrau eu bywydau.

Rhoddodd Mrs Brenda Pritchard air o ddiolch i bawb a gymerodd rhan yn y gwasanaeth ac i'r gynulleidfa am y gefnogaeth i'r achlysur.

Yn dilyn yr oedfa, cafodd pawb luniaeth ysgafn yn yr ysgoldy. Cafwyd llawer o fwynhad trwy edrych ar ambell i hen



*(cefn) Trevor Davies organydd; Parch Peter Williams, cyn aelod; Emyr Pritchard, aelod; (blaen) Brenda Pritchard, aelod; Walter Glyn Davies, pregethwr; Parch Eleri Edwards, Gweinidog*

lun a hen ddogfennau oedd yn olrhain hanes yr achos yn y dref yn yr arddangosfa a baratowyd ar ein cyfer. Cafwyd un aduniad arbennig, sef dosbarth Ysgol Sul nad oedd wedi cyfarfod a'i gilydd ers dros 60 mlynedd!

Mae ein diolchiadau pennaf wrth gwrs yn mynd i Mr Emyr a Mrs Brenda Pritchard am y gwaith a wnaed ganddynt, nid yn unig i baratoi ar gyfer yr achlysur arbennig hwn, ond hefyd am eu gwaith, ynghyd â'r ddiweddar Mrs Mona Williams, am gadw'r achos yn fyw cyhyd. Dymunwn bob bendith i Emyr a Brenda at y dyfodol.

*Ifor Williams*



## YN Y RHIFYN HWN:

Gorymdaith Gwener y Groglith - Newyddion Cymdeithas Cymry Lerpwl, Eglwysi Bethania, Bethel, Seion – Cynhadledd Cymdeithas Bob Owen – Dyddiau Cynnar Penmachno – Cofio William Lloyd-Jones

Golygyddol

# CYFLAWNI RECORD

## – *gan D. Ben Rees*

Dyma rifyn cyntaf cyfrol 36 a thrwy hynny cyflawnwyd record yn hanes cyhoeddi yn Gymraeg yn Lerpwl. Annheg yw cymharu *Yr Angor* i'r *Amserau, Y Cymro, Y Brython,* papurau llawn newyddion a ddeuai allan bob wythnos, ond teg yw cymharu ein bodolaeth i bapurau llai fel *Y Glannau* a'r *Bont* ac eraill a ymddangosodd yn Oes Aur cyhoeddi.

Ond o leiaf yr ydym am ddal ati fel Pwyllgor Gwaith *Yr Angor* ac yn falch fod gennym gynrychiolwyr o blith Cymry Manceinion a Chymry Cilgwri, yn benodol Penbedw a Heswall.

Bwriedir cynnal Cyngerdd er budd *Yr Angor* yn yr Hydref pan ddaw Côr Tawe o Abertawe i'n diddanu. Bydd y dyddiad yn wybyddus yn y rhifyn nesaf, ond credaf y bydd Cyfarfod Blynyddol *Yr Angor* yn llawenhau ym mis Gorffennaf ein bod eleni wedi llwyddo i gael dau ben llinyn ynghyd. Cawn weld o enau'r Trysorydd gweithgar.

# GORYMDAITH GWENER Y GROGLITH

Cynhaliwyd gorymdaith Eglwysi Unedig Mossley Hill ar ddydd Gwener y Groglith. Daeth 70 ynghyd i dystiolaethu yn gyhoeddus am arwyddocad y diwrnod pwysig yma. Bu nifer yn rhoi wyau Pasg a phamffledi gyda manylion am Eglwysi y Cylch i drigolion yr ardal.

Gorffennwyd yr orymdaith yn Eglwys St. Barnabas, sydd yn wynebu Penny Lane, gyda gwasanaeth ac wedyn danteithion ysgafn.




***Gorymdaith yn cychwyn***



***Guy Thomas, Cymro o'r Barri, yn ceisio dosbarthu wyau Pasg a phamffledi.***

***Cerdded ar hyd Penny Lane***



*Newyddion o*

# LANNAU MERSI A MANCEINION

## Cymdeithas Cymry Lerpwl

Gorffenwyd rhaglen y flwyddyn 2013/14 gyda sgwrs gan Dr. John Williams ar ‘Mabolgampau a Meddygaeth’. Gwisgodd John grys ‘Hotspurs Caergybi’ er mwyn creu yr awyrgylch priodol am y sgwrs! Er bod ymarfer i fod yn llesol i bawb dangosodd enghreifftiau ble roedd chwaraeon wedi achosi niwed i’r sawl oedd wedi cymeryd rhan e.e. cawsom wybod am effaith bocsio ar Muhammad Ali yn achosi’r afiechyd Parkinson, effaith torri y gwddf ar ôl syrthio oddi ar ceffyl neu drwy sgrym rygbi. Amlinellodd y gwaith mae’r clybiau pêl-droed yn eu gwneud i geisio darganfod afiechydon, a all fod yn beryglus, a sut i’w trin cyn eu bod yn achosi trashedi. Roedd yn cyfarfod boddhaol gan na lewygodd yr un o’r cynulleidfa.

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y Gymdeithas o dan arweiniad Roderick a Norma Owen yr wythnos wedyn. Mawr yw ein diolch iddynt am eu holl waith dros y gymdeithas. Bwriadwn dal ati y flwyddyn nesaf fel arfer gan edrych ymlaen at gyfarfodydd yr haf.



***Mair Roberts (Llywydd) a Dr. J. G. Williams (Darlithydd)***

## Eglwys Seion, Laird Street, Penbedw

Cawsom Ŵyl y Pasg hyfryd iawn, tywydd braf a oedfa fendithiol bnawn Sul y Pasg gyda’r Parchedig Dr. D. Ben Rees yn gwasanaethu a gweinyddiwyd y Cymun Bendigaid hefyd, a da oedd cael bod yno. Diolch yn fawr i’r Parch Dr. D. Ben Rees am ei wasanaeth i’n heglwys.

Bu amryw o’r aelodau a charedigion yr achos yn cwyno yn ystod y mis diwethaf yma, yn arbennig Mrs Sarah Davies a Mrs Eunice Powell. Bu Mrs Megan Evans a Mr. Hywel Jones yn ôl yn yr ysbyty. Cafodd Mrs Megan Vaughan driniaeth i’w llygad. Mae Mrs Dilys Askew yn mynd i’r ysbyty am archwiliad a Mr. Edgar Jones (brawd Miss Iris Hughes Jones) yn mynd am law-driniaeth. Mae Mrs Gwyneth Thomas yn ôl yn yr ysbyty ers cyn y Pasg, gobeithio y caiff ddod adref yn y dyfodol agos. Fe aeth Mrs Margaret Jones ar ei gwyliau i Lydaw hefo ei brawd a’i chwaer yng nghyfraith (Goronwy a Joyce) i ymweld a’u brawd Wmffra a’i briod sydd yn byw yn Llydaw. Tra yno fe syrthiodd Margaret a thorri ei chlun ac mae wedi cael llaw driniaeth mewn ysbyty yn Llydaw ac yn gobeithio cael dod adref yn fuan. Mor wir y dywediad pan ddaw un peth nid un peth ddaw. Fe dorrodd chwaer Margaret ei chlun – mae Mrs Clough (Liz) yn byw yn Nottingham ac yn yr ysbyty yno. Da cael dweud ei bod hithau yn gwella. Mae un arall o garedigion yr achos yn bur wael ac hyn o bryd sef Mrs Barcha. Anfonwn ein cofion at Mr. Merfyn Roberts, brawd Miss Megan Roberts sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Gwynedd. Mae Megan yn bryderus iawn amdano. Yr ydym fel Eglwys yn meddwl amdanoch oll ac yn dymuno gwellhad i bawb, ac heb fod yn ystrydebol, cewch eich cofio yn ein gweddïau, ac fe wyddoch i gyd fod nerth i’w gael i ddal ati. “Yn ôl y dydd y bydd dy nerth.” Bendith Duw fo ar un ag oll. Dymuniadau gorau i bawb sydd yn mynd ar eu gwyliau. Mwynhewch haf 2014.



***Cyfarfod Blynyddol Cymdeithas Cymry Lerpwl***

## Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo

Da gweld Miss Dorothy Williams, Blundellsands yn yr oedfa yn niwedd Ebrill, bu yn gaethiwus ac anfonwn ein cofion at Miss Megan Willams, Mersey Road a Mrs Menna Edwards, Blundellsands sydd ar hyn o bryd yn methu bod yn bresennol yn ein hoedfaon. Cynrychiolwyd ni fel eglwys yn arwyl Mrs Helen Hughes, Warwick Street (un o aelodau selog Capel Stanley Road) cyn iddi symud i dref Rhuthun. Yr oedd mewn oedran teg ac yn wraig annwyl a gostyngedig. Anfonwn ein cofion hefyd John Davies, Rhuthun sydd yn Ysbyty Bodelwyddan, un arall o’r rhai fu yn blaenori yn Stanley Road. Cadwodd gysylltiad â ni, ef a’i ddiweddar briod Gwyneth, ar hyd y blynyddoedd. Y mae nifer o’r aelodau wedi mynegi ei gwerthfawrogiad i Mr. Huw Edwards a chwmni teledu o Gaerdydd a fu’n gyfrifol am y gyfres werthfawr ar Hanes Cymru, tair rhaglen a deledwyd ar Nos Sul (awr yr un), gwaith hynod o raenus yn ein t ŷb ni S4C.

## Eglwys Bethel, Heathfield Road/ Auckland Road, Lerpwl

Hir gofir gwasanaeth Sul y Palmwydd a chroesdoriad diddorol yn ein plith, yr ifanc, canol oed a’r to hŷn a Dr. D. Ben Rees ein Gweinidog Emeritws, yn defnyddio yr emynau i’n goleuo ar yr Wythnos Fawr. Cyflwyniad ardderchog i’r wythnos bwysig oedd wrth law. Roedd yn dda cael croesawu Mrs Elan Jones, Templemore Avenue, gartref o Batagonia a chael clywed fod Mr. Ken Pritchard, Allerton gartref o’r Ysbyty.

Y noson ddilynol cawsom gyfarfod arbennig iawn yn y Gymdeithas Lenyddol sef ‘Myfyrdod ar y Pasg’ gan Dr. Pat Williams. Cawsom weld darluniau yn ymwneud â’r Pasg gan wahanol arlunwyr a chlywed peth o hanes yr arlunwyr a’r darluniau diddorol. Dechreuwyd gyda’r

Mynediad i Jerusalem gan Pietro Lorenzeti (1280-1348) a ddangosai bobl o bob dosbarth o gymdeithas yn y dorf. Roedd “Flevit super illam” gan Enrique Simonet (1886-1927) yn dangos Iesu yn wylo dros Jerusalem, yna’n gyrru’r cyfnewidwyr arian o’r deml yn y llun gan Doménikas Theotokopoulos (1541-16140. Adnabyddid y gŵr hwn fel El Greco. Mewn rhan o’r darlun gwelid Isaac ar allor fel symbol o Iesu ar y groes. Dangosai llun Frederick Augustus Sandys (1829-1904) o weithred o eneinio traed yr Iesu. Mae dadl ynglŷn â phwy oedd y wraig â’r blwch enaint, Mair o Fethania, Mair Magdalen ynteu gwraig arall bechadurus o’r dref. Dangoswyd cerflun pren o Fair Magdalen gan Donatello (2386-1466) a llun ohoni’n darllen gan Roger Vauder Weyden (1399-



***Dr. Pat Williams***

1464). Roedd llun o Grist yn golchi traed y disgyblion gan Tintoretto (1518-1594) ac un arall ganddo yn dangos pob disgybl ond Judas gydag eurgylch. Roedd llun diddorol o’r Swper Olaf gan Dieric Bouts (1415-1475), gyda phaneli ochr, pob un yn ymwneud â bara. Yn y canol gwelir yr Iesu’n bendithio’r gwpan. Dengys y paneli eraill Abraham yn cyfarfod â Melchisedec a ddaeth â bara a gwin; Gwledd y Pasg wedi rhoi gwaed oen ar y drysau; yr Israeliaid yn casglu manna yn y diffaethwch ac Elias yn y diffaethwch yn derbyn bara gan angel. Roedd llun o’r Dioddefaint yng Ngardd Gethsemande gan Benvenuto Tisi da Garofalo (1481-1559). Byddai’r arlunydd hwn yn rhoi carnasiwn ar bob un o’i luniau. Gwelir Pedr yn torri clust Malchus i ffwrdd a Judas yn cusanu Crist yn llun Ugoliuno di Nerio (1280-13490 o Fradychu Iesu Grist. Ei waith ef hefyd yw ‘Y Ffordd i Galfaria’ yn dangos Iesu’n cario’r groes ac yn edrych ar ei fam a’r gwragedd eraill oedd yn dilyn. Dangoswyd Pedr yn gwadu Crist gan Rembrandt (1606/7-1669) a ‘Christ wedi’r Fflangellu’ gan



***Cantorion Bethel o dan ofal R. Ifor Griffith***

Diego Velazquez (1599-1660) lle gwelir angel wedi dod â phlentyn bach i weld yr Iesu.

Dangoswyd pedwar llun yn ymwneud â’r Croeshoeliad. ’Roedd un gan Gerard David o’r Iseldiroedd (1460-1523) yn dangos y weithred o hoelio Crist ar y groeso ac un o’r Croeshoeliad gan Dam Allor Meistr Aachen, sef Meistr yr Allor.

’Roedd ‘Trawiad y Bicell’ gan Peter Paul Rubens (1577-1640). Gwelsom y symbol Chi Rho, sef y symbol o enw Crist. Dangoswyd Crist yn codi o’r bedd gan Ferrari a “Noli me tangere” gan Titian, lle mae’r Iesu yn dweud wrth Mair Magdalen am beidio a’i gyffwrdd. Diweddwyd trwy ddangos llun o’r Drindod Sanctaidd gan Massaccio (1401-1428). Mae’r llun pwysig hwn yn Santa Maria Novello.

Yn ystod y cyfrafod cafwyd tri chyfraniad gan Gantorion Bethel dan arweiniad Mr. R. Ifor Griffith. Canwyd Panis Angelicus, darn traddodiadol ar osodiad Chris Hazell a’r emyn Tre’r Ceiri gyda’r geiriau gan William Wiliams a’r gerddoriaeth gan Gilmour Griffiths, Henllan. Yr emyn hon oedd testun pregeth Dr. D. Ben Rees y bore cynt. Yr emyn olaf oedd “I bob un sy’n ffyddlon”, geiriau Elwyn P. Howells ar y dôn Rachie gan Caradog Roberts. Unodd pawb yn y gytgan. Talwyd diolchiadau gan Dr. D. Ben Rees ac roedd Mrs Gwenfyl Bain, Mrs Lilian Coulthard a Miss Carys Jones wedi paratoi gwledd ar ein cyfer ar ddiwedd y cyfarfod a’r bwrdd yn edrych yn ddeniadol iawn. Cawsom wyau Pasg hefyd gan Dr. Pat Williams. ’Roedd hon, noson olaf y Gymdeithas Lenyddol am y tymor, yn noson arbennig iawn a hir gofir.

Ar fore Sul y Pasg cafwyd pregeth rymus gan Dr. D. Ben Rees. Cawsom groesawu Hefin a Bethan gyda Tomos a Joshua o Harpenden ac hefyd gyn-aelodau o Fôn, sef Mr. Eurfryn a Mrs Siân Arwel Davies a Betty, chwaer Siân, a’i phriod, Dr. Norman Jones, Llandegfan.

Llongyfarchiadau calonnog i Mr. Mike Dooling, priod Mrs Eryl Dooling, Rainhill, sydd wedi ei anrhydeddu gyda M.B.E. Derbynnir yr anrhydedd yn nechrau mis Mai. Dymunwn amser diddorol a chofiadwy i’r ddau ac edrychwn ymlaen i weld lluniau yn y rhifyn nesaf o’r *Angor*.

Drwg oedd gennym glywed i Mrs Mair Williams, Gateacre Park Drive, gael codwm yn y cartref. Mae wedi dioddef gryn dipyn o boen i’w phen a’i chefn. Dymunwn adferiad buan iddi, a’r un modd i’r Athro Huw Rees sydd wedi derbyn triniaeth i’w glun yn Ysbyty Arrowe Park. Bu Miss Ann Roberts, Score Lane, yn yr ysbyty am noson, ond da oedd ei gweld yn y gwasanaeth ar fore’r Pasg. Mae Mr. Ken Pritchard, Melbreck Road yn araf gryfhau. Anfonwn ein cofion gorau at y pedwar ac at bob aelod arall sydd yn methu a mynychu’r moddion oherwydd gwaeledd neu wendid.



***Siân Arwel Davies,***
***Anne M. Jones a Betty Jones***
***ar ddiwedd oedfa Sul y Pasg***
***ym Methel***

# Atgofion am Cassie Rowlands/Taylor (1916-2012), Penbedw

*gan Enfys Hughes, Brynteg, Môn*

Llond capel o soprano, llond tŷ o groeso a llond bol o chwerthin – dyna'r atgofion sydd gen i o Aunty Cassie. Gyda'r Hen Wlad mor bell a thrafnidiaeth mor ddrud yr adeg honno, "aunties ac uncles" y capel oedd ein teulu ni. Dyna sut oedd hi efo "Aunty Cassie". Sgleiniai'r capel fel haul ar lyn ar ddiwrnod o haf dan ei dyster prysur a'i thun polish. Nid gorchwyl hawdd oedd cadw capel mor fawr yng nghanol tref diwydiannol yn lân ond llwyddai Aunty Cassie yn rhyfeddol. Er nad oedd ei gŵr Tom yn siarad Cymraeg roedd o'n ffyddlon iawn i'r gwasanaethau Saesneg unwaith y mis. Pan nad oedd o'n gyrru bysus y Birkenhead Corporation o gwmpas y dref roedd o'n gefn i'w wraig yn gofalu am y gwaith trwm, ac yn bwysicach i mi fel plentyn, yn cadw'r cloc ar amser. Rhaid i mi gyfaddef, fy mod i'n gweld y cloc hwnnw yn rhyfeddol o ara deg yn ystod ambell i bregeth hirwyntog.

Daeth rhieni Cassie o Gaergybi yn wreiddiol ond fel llawer o bobl ifanc yr oes honno gadael eu cartref bu raid iddynt a chwilio am waith y tu hwnt i Glawdd Offa. Daethant i Benbedw ac yno y ganed Cassie a magwyd hi ar aelwyd o Fedyddwyr Cymraeg brwd a chapel yr Woodlands oedd ei ail chartref. Daeth yn gartref cyntaf iddi ym 1951 pan symudodd hi efo'i mam a'i gŵr a thri phlentyn, Raymond, Glenys a Lynda i fyw i'r Tŷ Capel. Bu'n ffyddlon iawn i bob oedfa a chyfarfod yn gofalu bod y capel yn lân ac yn gynnes bob amser.

Yn gynnar yn y chwedegau cawsant gyfle i symud i dŷ mwy yn Oxton lle bu'n gofalu am syrjeri doctor yr un mor ofalus a dibynadwy. Yn frawychus o sydyn, bu farw Tom yn ddyn ifanc yn ei bedwardegau ac roedd o'n golled enfawr iddi hi a'r teulu i gyd. Llwyddodd i ofalu am ei mam oedranus a'i phlant a chadw eu hysbryd i fyny er ei galar enfawr ei hun.

Ymhen rhai blynyddoedd daeth yn gyfeillgar gyda chymydog oedd yn cadw siop cyfagos. Roedd Arthur Taylor yn ddyn caredig ac yn ŵr gweddw a chanddo un mab. Priododd y ddau a bu'r ddau yn ddedwydd am flynyddoedd er nad oedd y bwlch a adawodd Tom wedi ei gau'n llwyr. Un ar ôl y llall priododd y plant a gadawsant y cartref ond oedd drws Cassie bob amser yn agored. Yn fuan, daeth wyrion i Arthur ac iddi hithau a bu'n brysur yn gwarchod y plant bach. Hi oedd canolbwynt y teulu, yn siriol bob amser.

Ar ôl i Arthur farw, symudodd i dŷ llai gan ddal yn agos iawn hefo'i merched a'r plant. Roedd ei chrefydd a'i Chymreictod yn ddwfn yn ei chalon o hyd. Roedd yn byw yn annibynnol tan y diwedd ond nid diwedd go iawn oherwydd mae ei chwethiniad iach yn dal i atsain yn fy nghlustiau ac yng nghlustiau pawb a gafodd y fraint i'w hadnabod.

# SAGA FAWR Y CYMRY - DARLITH GOFIADWY

***gan Mair Powell***

Yr ail o'r Athrawon i roi darlith yn Sasesneg dan nawdd Cangen Urdd y Graddedigion Lerpwl o Brifysgol Cymru oedd yr Athro Helen Fulton. Mae ar hyn o bryd yn Athro mewn Llenyddiaeth Ganoloesol ym Mhrifysgol Efrog. Cyflwynwyd hi i'r gynulleidfa gan Dr. Pat Williams, Llywydd y cyfarfod. Bu'n byw am gyfnod yn Awstralia a graddiodd o Brifysgol Sydney. Bu'n astudio hefyd yn Rhydychen ac Aberystwyth ac yn dysgu Cymraeg Canol a Hen Wyddeleg mewn prifysgolion. Mae'n awdurdod ym maes Astudiaethau Canoloesol ac mae wedi cael cyhoeddi llawer iawn o'i gwaith. Teitl ei darlith ar nos Lun Ebrill 7 yn Lerpwl oedd *'Troy in Wales: Cultural Transmisison in Mediaeval Britain'*. 'Roedd gan Gymru ei fersiwn ei hun o'r chwedl Droeaidd wedi ei hysgrifennu yn nechrau'r bedwaredd ganrif ar ddeg yn seiliedig ar waith Dares Phrygius. Credai'r Cymry eu bod yn ddisgynyddion i Brutus a chyfieithwyd llawer o'r hanesion Troeaidd i'r Gymraeg.

Yn y flwyddyn 1284 collodd Cymru ei hannibyniaeth gwleidyddol. Bu farw y Tywysog Llewelyn a gorlywodraethwyd Cymru gan Loegr. Roedd 1284 yn flwyddyn ysgytiol i Gymru, gyda newidiadau diwylliannol.

'Roedd y Cymry am greu eu hanes eu hunain yn yr iaith Gymraeg. Ysgrifennodd Sieffre o Fynwy groniclau hanesyddol ar frenhinoedd Cymru ac fe gariwyd y gwaith ymlaen gyda chroniclau fel *Brut y Breninoedd, Brut y Tywysogion* a *Brenhinoedd y Saeson*. Gwelsom ddarlun o Fynachdu Ystrad



***Yr Athro Ben Rees a'r Athro Helen Fulton yn y Ganolfan***

Fflur yng Ngheredigion lle y cyflawnwyd llawer o'r gwaith, oedd, mewn ffordd yn ddilyniant i waith Dares.

Clywsom am ffynonellau hanes Troea ym Mhrydain y Canol Oesedd. Y fersiwn mwyaf poblogaidd o'r hanes oedd gwaith Guido delle Coloune, *Historia Destructionis Troiae* ym 1287. Roedd aml i hanes o chwedl Troea yn ieithoedd y Canol Oesoedd. Mae'r fersiwn Cymraeg mewn rhyddiaith ganolesol, *Ystorya Dared* sydd yn *Llyfr Coch Hergest*. Mae'n dechrau drwy sôn am y Brenin Pellaes, ei frawd Aeson a mab Aeson, Jason, oedd yn garedig tuag at bawb. Cyfieithwyd hanesion rhamantus i'r Gymraeg, fel hanes Siarlymaen a'r Greal Sanctaidd. 'Roedd elitiaeth mewn bod yng Nghymru gyda'r Uchelwyr. Medrai'r rhain siarad llawer o ieithoedd ac 'roeddynt yn abl i olrhain eu llinach yn ôl i'r Troeaid.

Cafodd y gynulleidfa gref gyfle i holi'r Athro Helen Fulton yn fanwl ar ddiwedd y ddarlith. Diolchwyd iddi gan Dr. Pat Williams (Llywydd y Gangen) a chan Dr. D. Ben Rees (Ysgrifennydd y Gangen). Roedd hon yn noson a gofir. Cawsom ychwanegu ffeithiau diddorol at ein gwybodaeth o'n gwreiddiau fel Cymry. Diolch am y trefnu gan Dr. D. Ben Rees . 'Melys moes mwy'.

# Cynhadledd Cymdeithas Bob Owen, Croesor



***D. Ben Rees, Betty George ac Einion Wyn Thomas***

Trodd Cymry llengar a diwylliedig Gogledd Cymru i westy moethus Waterloo, Betws y Coed ar Sadwrn, 12 Ebrill i Ysgol Un-dydd o dan nawdd Cymdeithas Bob Owen. Braf oedd gweld dros 60 o bobl yn bresennol i wrando ar dri darlithydd adnabyddus ym mywyd ein cenedl. Llywyddwyd y tri cyfarfod gan Mrs Buddug Medi o'r Bala, a gwnaeth ei gwaith yn frwdfrydig gan grynhoi hanes pob un o'r darlithwyr mewn gofod byr. Cyflwynwyd y ddarlith gyntaf gyda *power poin*t am 10.30 gan Einion Wyn Thomas (brodyr o Rhosygwaliau, ger Y Bala), Archifydd Prifysgol Bangor ar *Gymry Patagonia.* Yr oedd ganddo luniau godidog o'r arloeswyr cynnar.

Yna daeth tro yr Athro D. Ben Rees o Lerpwl (brodor o Landdewi Brefi) i gyflwyno braslun o Gymry Lerpwl o'r dyddiau cynnar hyd ein dyddiau ni. Cafodd awr a chwarter i wneud hynny gan bwysleisio agweddau pwysig o waith y Cymry ac yn arbennig yr anturiaeth fawr o anfon cenhadon i'r India, i'r Wladfa yn y Mimosa, a hefyd y mudiadau a darddodd yn y ddinas fel y Mudiad Dirwest, Undeb Cymry Fydd a'r bywyd cyfoethog a berthynai i'r beirdd. Yna cafwyd cinio blasus, a digon o gyfle i gymdeithasu cyn y drydedd sesiwn yng nghwmni Betty George (brodor o Coed y Bryn, Ceredigion). Rhoddodd sgwrs hynod o ddiddorol ar ei gyrfa a'i gofal am ei anwylyd, David Parry Jones, sydd yn diodde hefo *dementia*. Yr oedd ei disgrifiadau a'i dadansoddiad yn argyhoeddi pawb fod angen cefnogi yr elusennau sydd ar waith i leddfu'r dioddefaint. Cynrchiolwyd Lerpwl yn yr Ysgol Undydd gan Dr. J. G. Williams a llwyddodd Dr. Rees i werthu ei gyfrolau (8 ohonynt) a aeth gydag ef. Gallai yn hawdd fod wedi gwerthu tair gwaith hynny, sef y gyfrol hardd *Cymry Lerpwl yn yr Ugeinfed Ganrif,* sydd ar gael am bris rhesymol.



***Yr awdur yn llofnodi ym Metws y Coed***

Trefnwyd y dydd gan Mr. Mel Williams, Llanuwchllyn, a gofalwyd am y wledd gan Mrs Ann Crocket a Dr. Bruce Griffiths, Bangor a'r cofrestru gan Mrs Helga Martin, Ysbyty Ifan, tîm sy'n cydweithio er budd y Gymdeithas lyfryddol hon.

## Cyfarfod Papurau Bro Gogledd Cymru yn Rhuthun

Aeth Roderick Owen a John Williams i gynrychioli '*Yr Angor*' mewn cyfarfod rhanbarthol y papurau bro a gynhaliwyd yng Ngwesty y Castell, Rhuthun ac wedi ei drefnu gan Megan Jones, Uned y Gymraeg yn y Gymuned, Llywodraeth Cymru.

Bwriad y cyfarfod oedd rhannu profiadau, gwybodaeth a syniadau er mwyn hwyluso a rhannu arferion da. Cafwyd cyfarfod buddiol iawn a rydym yn gobeithio elwa yn lleol o'r noson. Bwriadwn gyfarfod eto cyn diwedd y flwyddyn. Dr. John Williams yw Cadeirydd newydd *Yr Angor* fel olynydd i Mr. Hywel Jones, Barnston. Diolchir iddo ef am ei gefnogaeth ar hyd y blynyddoedd, a chofiwn amdano yn ei waeledd y dyddiau hyn.



***Yn y llun gwelir Glyn Davies (gynt o Lerpwl), un o gynheiliaid papur bro Dyffryn Clwyd***

# COFIO WILLIAM LLOYD-JONES – ei Gymreictod

***Addasiad o'r anerchiad ar 27.3.14 yn y Cyfarfod Coffa, o dan arweiniad Dr. Chris Evans, yn Neuadd Carnatic, Mossley Hill Road.***

Yr ydym wedi clywed fod Wil yn lawfeddyg galluog iawn ac uchel ei barch ymysg ei gyfoedion ac yn dad annwyl. Yr oedd yn Gymro i'r carn a dyma'r agwedd yr wyf am sôn amdani am ychydig prynhawn heddiw.

Mae Jenny a'i theulu ceisio gyfleu eu gwerthfawrogiad, i deulu Wil a'i ffrindiau o Gymru, am eu cefnogaeth a'u cyfeillgarwch gwresog yn ystod y misoedd diwethaf. Hoffwn ddweud ar ran teulu Wil faint mae nhw eisio diolch i Jenny a'i theulu am ofalu mewn ffordd mor dyner a chariadus am eu hannwyl Wil yn ei waeledd olaf ac yn y wir, am yr ugain mlynedd diwethaf.



Gan ein bod yn cofio genedigaeth Dylan Thomas 100 mlynedd yn ôl eleni byddai'n well 'Dechrau yn y dechreuad'.

Mae Llandyfrydog, yn bentref bach iawn yn agos at Amlwch yng Ngogledd Ynys Môn – un o'r ardaloedd mwyaf Cymreig yng Nghymru.

Ceir dwy ffaith enwog am Llandyfrydog.

i) Mae traddodiad lleol fod St Tyfrydog, y dyn y mae'r pentref yn cael ei enwi ar ei ôl, wedi dal dyn a oedd wedi dwyn Beibl yr Eglwys. Mewn enghraifft anghyffredin o dosturi at y dyn mae'r Sant yn ei droi yn biler o garreg. Mae'r garreg a elwir yn 'Carreg Leidr' i'w gweld hyd heddiw.

ii) Yr ail ffaith am Landyfrydog yw dyma'r pentref ble y magwyd William Lloyd Jones.

Thema fy nheyrnged fer yw nad anghofiodd Wil ei wreiddiau yno. Ac fel pob pregeth Presbyteraidd dda bydd yna 3 phennawd - ond bydd dipyn yn fyrrach na phregeth arferol!

i) Yr oedd yn berson oedd yn hoffi pobl - nid yw hyn yn nodwedd gyffredinol ymysg Llawfeddygon! Yr oedd yn gartrefol gyda rhywun o unrhyw gefndir a phwysicach byth teimlai'r cleifion yn gyfforddus yn dod ato. Pan oeddwn yn fyfyriwr meddygol 3ydd flwyddyn fy nhasg gyntaf oedd gweld claf o Sir Fôn. Ar ôl ychydig amser gofynnodd i mi "'Dach chi wedi gweld Wil bach Deri?" Atebais nad oeddwn yn adnabod unrhyw glaf gyda'r enw yna ond dywedodd wedyn fod y dyn yn gweithio yn yr ysbyty. Sylweddolais yn sydyn ei bod yn cyfeirio at Mr William Lloyd-Jones, Uwch Ddarlithydd parchus yn adran Llawfeddygaeth Prifysgol Lerpwl. Deri (Fawr) oedd enw ei gartref. Nid oedd hi'n bod yn amharchus – roedd hi'n ystyried Wil fel un o'i theulu a ffrind.

Saith mlynedd yn ôl derbyniodd Wil anrhydedd mawr gan ffermwyr Ynys Môn. Estynnwyd iddo wahoddiad i fod yn Llywydd Sioe Môn. Fel arfer mae anrhydedd o'r fath yn cael ei gyflwyno i rhywun amlwg yn y gymuned ffermio. Nid oedd Wil yn ffarmwr - estynnwyd gwahoddiad iddo fel arwydd o'u gwerthfawrogiad iddo am ei ofal dros eu teuluoedd yn ystod ei yrfa. Braf oedd clywed ei ferched, Angharad a Teleri, yn dyfynnu o'i araith ar yr achlysur arbennig yna. Mae'n amlwg fod y gwahoddiad i fod yn Llywydd wedi ei blesio yn fawr.

ii) Yr oedd yn aelod o Bethel, Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Lerpwl.

a) Roedd hadau ei ffydd Gristnogol wedi eu plannu yn ei gartref o dan arolygaeth ei fam ac yn y capel lleol yn Llandyfrydog, sef Capel y Parc, lle roedd ei dad yn flaenor.

b) Bedyddiwyd Angharad a Teleri gan y Parch D. Ben Rees mewn gwasanaeth dymunol iawn yn yr ysbyty Lourdes.

c) Ac i Ynys Môn yn dymunodd ddychwelyd am ei wasanaeth angladdol yn Eglwys Llanbadrig, Eglwys ddiddorol iawn gyda elfennau o ddylanwadau Cristnogol a Mwslemaidd yn yr adeilad. Lleolir yr Eglwys mewn llecyn delfrydol ar y lwybr Arfordir Ynys Môn yn agos i Fae Cemaes ac mor agos â phosibl at y môr. Rwy'n cofio ei wyneb angylaidd ac eto roedd ganddo hiwmor craff. Tybed os oedd yn sylweddoli fod yr Eglwys , trwy gyd-ddigwyddiad, yn hynod o agos at un o'r ychydig winllannoedd yng Nghymru!

iii) *Dyn y Pethe.* Roedd yn cofleidio diwylliant Cymru a diwylliannau gwledydd eraill mewn sawl maes – arlunio, barddoniaeth, cerddoriaeth a llenyddiaeth.

a) Yr oedd yn Is-lywydd Undeb Gorawl Cymreig Lerpwl , côr a sefydlwyd yn 1900 ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Cymru . Byddai sawl aelod o'r côr wedi hoffi bod yma heddiw, ond maent yn ymarfer ar gyfer eu cyngerdd heno .

b) Cyflwynwyd ran o'r rhoddion er cof amdano i Eisteddfod Genedlaethol Cymru . Bu Wil yn cystadlu mewn sawl Eisteddfod yn ei ddyddiau gynnar - yn bennaf yn y cystadlaethau adrodd a siarad cyhoeddus .

Gan ei fod yn 'Dyn y Pethe' hoffwn ddarllen 'Hon', cerdd enwog T. H. Parry Williams a ysgrifennwyd yn y 20-30au pan oedd llawer o ddadlau yng Nghymru ar werth yr iaith Gymraeg a'i diwylliant unigryw. Hoffwn dynnu eich sylw at y llinell olaf.

"Duw a'n gwaredo - ni allaf ddianc rhag hon"

Ni anghofiodd William Lloyd-Jones am Gymru a gallaf eich sicrhau chi na fydd Cymru yn ei anghofio ef.

***JGW***

# CORNEL Y TRYSORYDD

## MEHEFIN 2014

| | |
|---|---|
| Mrs Gwenfyl Haynes, Lerpwl | £11.00 |
| Mr a Mrs Idris Williams, Prenton | £20.00 |
| Rhodd Cymdeithas Cymry Lerpwl | £200.00 |
| Rhodd Capel Seion, Penbedw | £50.00 |
| Mrs Louie Jones, Allerton | £30.00 |
| Mrs Enfys Hughes, Llangefni | £32.00 |
| Mr a Mrs V. Cole, Abertawe | £11.00 |
| Mr Ken Williams, Gateacre | £50.00 |
| Mr a Mrs E. W. Williams, Childwall | £12.00 |
| Rhodd Cymdeithas Gymraeg Penbedw | £100.00 |
| Mrs Ruth Rushton, Oxton | £11.00 |
| Mr A Mrs Alun Tudor, Solihull | £35.00 |
| Mr Alun Pari Huws, Llandudno | £31.50 |
| Miss Marian Prys Davies, Bae Colwyn | £15.00 |
| Mr Emyr W. Pritchard, Warrington | £30.00 |
| Mr a Mrs Gareth Hughes, Oxton | £25.00 |
| Mrs Betty Lockyer, Betws Bledrws | £12.00 |
| Y Barnwr a Mrs Hefin Rees, Harpenden | £12.00 |
| Mrs Dafydd Rees, West Hamstead | £12.00 |
| Parch. Dr. a Mrs D. Ben Rees, Allerton | £100.00 |
| Rhodd Eglwys Bethania,Waterloo | £50.00 |
| **Cyfanswm** | **£849.50** |

*Roderick Owen (Trysorydd)*

Rhifyn Mehefin 9/7/14 14:20 Page 8

# Gŵyl yr Adeiladwyr yn Lerpwl

**BORE A NOS SADWRN 7 A BORE SUL, 8, MEHEFIN 2014**

***Gŵyl yr Adeiladwyr o dan nawdd Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi yn y Ganolfan Auckland Road. Cyflwynir y ddwy ddarlith yn Saesneg a gofynnir am gefnogaeth deilwng gan fod cryn waith yn cael ei gyflawni gan y darlithwyr.***

***Bore Sadwrn*** - Agor a Chroesawu (10 o'r gloch)

***Darlith Cyntaf*** ar Richard Owen, Lerpwl, gŵr a gynlluniodd Capeli a Strydoedd gan Dr. Gareth Carr, Wrecsam (un a fu yn aelod ym Methel yn niwedd yr wythdegau). Cadeirydd: Mr. Ted Clement-Evans, Aigburth.

Bydd y ddarlith hon o 10.30 i 11.25.

Toriad (11.25-11.40)

***Yr Ail Ddarlith*** gan y Dr. Ben Rees ar yr Adeiladwyr gan ganolbwyntio ar deulu J. W. Jones, Allerton a Edward Jones (teulu y Clement-Evans). Cadeirydd: Mrs Nia Antonia (wyres J. W. Jones), Allerton. Bydd hyn drosodd am 1 o'r gloch.

***Yn yr hwyr am 7.30 o'r gloch trefnwyd yn y Capel Noson Gerddorol ddwyieithog yng Nghapel Bethel.***

**CYMDEITHAS ETIFEDDIAETH CYMRY GLANNAU MERSI**
**Mehefin 7, 2014 am 7.30p.m.**
**Noson gerddorol gyda Tucsedos Blêr o Ddyffryn Clwyd.**

Pris y tocyn yw £7.50 ac y mae'r tocynnau ar werth ar hyn o bryd gyda aelodau o'r Pwyllgor Gwaith.

**BORE SUL, 8 MEHEFIN –** Oedfa i gofio'r Adeiladwyr o dan lywyddiaeth Dr. D. Ben Rees (Cadeirydd a sefydlydd Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi). *I draddodi'r neges:* Parchedig Eric Greene, Y Bala.

***Myfyrdod y Mis***

# Distawrwydd - Tawelwch

## *gan Elwyn Parry*

Mewn byd aflonydd, di-orffwys a therfysglyd fel heddiw tybed oes yna unrhyw beth hyfrytaf na distawrwydd a thawelwch? Byddaf tu hwnt o ddiolchgar fy mod yn byw mewn man distaw. Pan yn byw yn y Waenfawr ers talwm fe hoffais y mynydd, Cefndu a'r olygfa bendigedig o'm blaen. I'r chwith mynyddoedd yr Eifl; o fy mlaen Sir Fôn yn ei phrydferthwch a'r môr yn llonydd, llonydd. Fe ddysgais yr adeg hynny gan Natur fod yna ddau fath o ddistawrwydd. Un oedd yn drwm a'r llall yn ysgafn ac yn wir mae yna wahaniaeth. O flaen y storom mae un a'r llall yn dilyn ar ei ôl. Yn wir mae un yn rhagredegydd y mellt pan mae'r "trymder yn annaturiol". Yn sydyn fe glywir o bell ru hirllaes taran a phawb yn dweud fod y storom ar y ffordd. Ar ôl y storom fe geir y distawrwydd ysgafn, esmwyth ac mae hyn imi y distawrwydd sydd yn ddefnydd tawelwch. Mae hyn yn rhywbeth mwy nag absenoldeb sŵn ac hefyd terfysg. Gwn imi deimlo mewn dau le arbennig ac os caf rydw am rannu â chi.

Hoffaf yn fawr mynd i'r Alban a cofiaf mynd gyda ffrindiau i Mull ac wedyn ymlaen i Ynys Iona. Dyma un o'r ynysoedd cysegredicaf Cristionogaeth – St Columba – yn yr Alban. Wrth nesau at yr ynys fe deimlais rywsut fod yna rhywbeth arbennig yno imi. Gadewais y cwmni ac araf gerdded heibio hen eglwys y plwyf St. Ronan ac throi i'r dde i lawr "stryd y meirw" at yr Abaty. Gallaf ond yn y fan hyn rhoi fy llaw ar fy nghalon a dweud yn y distawrwydd esmwyth, llethol tangnefeddus fe deimlais rhywbeth a gyffyrddodd fy nghalon i waelod enaid. Daeth ryw ymdeimlad imi fy mod er yn greadur pechadurus tu hwnt fy mod yn cyfri yng ngolwg y Nef ac hefyd fod Duw am faddau imi yn Ei fawr drugaredd a gofalu amdanaf hyd dragwyddoldeb. Do, yn wir, fe gefais rhywbeth nag anghofiaf byth. Rhywfodd aeth y distawrwydd diethr yn dawelwch yn fy mynwes "a bu tawelwch mawr". Fe ddysgais ar Ynys Iona fod distawrwydd yn rhywbeth i'r glust ond peth i'r galon yw tawelwch

Cofiaf wedyn amdanaf yn stydi Taid yn fachgen bach deg oed. Roedd Taid yn Arolygwr gyda'r Prudential ac yn Drysorydd y capel. Roedd yn gwneud y llyfrau ac i smalio fy mod yn helpu dyma fi'n cael colofn o rifau i'w cyfri. Ar ôl gorffen a finnau'n cael darn chwech cheiniog am gyfri'n gywir eistedd bob ochr i'r tân – Taid gyda'i getyn a finnau gyda llyfr – nid yngan gair ac fel dywed rhywun *"the silence of companionship"*. OND mor wahanol wrth feddwl am agosrwydd dyn a'i Dduw? Peth i'r glust yw distawrwydd ond peth i'r galon yw tawelwch. O gwmpas dyn mae'r naill o'i mewn mae'r llall, a chrea'r gyfathrach ddistaw ryw ymdeimlad sydd yn anrhaethol rin i enaid lluddedig. Meddwl am yr annwyl Parch J. W. Jones, Conwy ar ei bregeth yn dweud gydag arddeliad sicrwydd mai dyma'r peth agosaf yn ysbryd dyn i 'dangnefedd Duw yr hwn sydd uwchlaw pob deall." Gyfaill os golli dy y "tawelwch" yma mae'n golled anfesurol fawr. Heddiw fe chwilir am y pethau a gyfrifir yn "borfeydd gwelltog" – miri, pleser, cyfoeth – OND mae'n fawr angen am rywun a ddichon ein harwain yn ôl at y "dyfroedd tawel". Amen dywedaf i.

*Yn y dwys distawrwydd*
*Dywed air fy Nuw,*
*Torrer dy leferydd*
*Sanctaidd ar fy nghlyw.*

# EISTEDDFOD MANCEINION



*Elwyn Evans yn cyflwyno y Cwpan i Ken Thompson am ei gyfraniad i'r Eisteddfod dros y blynyddoedd.*



*Elwyn Evans yn cyflwyno y Gadair am yr Emyn Dôn i Trefor Davies*






*Cystadleuwyr gwneud teisen*



*Cystadleuaeth gwneud teisen*

## Cymdeithas Cymry Birkenhead



*Bob Jones yn trosglwyddo'r darian a'r gadwyn i Eirwen Sargent, Llywydd newydd y Gymdeithas.*

## GAIR I'R DARLLENWYR

**Anfonwch eich tâl am Angor 2014-15 (Mehefin 2014-i Mai 2015) i'r Trysorydd mor fuan ag y medrwch.**

# Dyddiau Cynnar Penmachno

## GAN BRIAN THOMAS (MOSSLEY HILL)

**Pennod 2**

Dyna rai o chwaraeon Gwynfor. Chware hefo olwyn a chwip. Yncl Rhys, y gof, oedd yn gwneud rhai i ni. Rhai pwrpasol, efo'r chwip yn sownd wrth yr olwyn, '*Executive Wheel'*. Chwarae 'Top', a'r top yn bownsio mynd ar hyd y stryd. Chwarae 'Scotch' wedi cael sialc o'r ysgol i wneud siâp ar y ffordd wedi ei rifo o 1 i 8. Chwarae Tip. Chwarae rasio rownd y tai, un yn mynd un ffordd, a'r llall yn mynd y ffordd arall a'r cyntaf yn ôl i'r cychwyn yn ennill. Chwarae '*conkers*' tymor yr Hydref, a rhai wedi piclo rhai flwyddyn diweddaf, ac yn malu pob *conker* newydd yn ddarna'. Y merched yn chwarae 'tai bach', wedi creu siap ystafell tŷ, ac wedyn yn hel bob math o degins i greu y tŷ. Yr hogiau'n chwarae ffwtbol, a rhai o'r gemau efo sgor terfynnol fel *'twentyfour nineteen'* pan oedd hi'n rhy dywyll i chwarae ymhellach. 'Roeddem yn chwarae ar y stryd fawr, a neb yn meindio. Symud o'r ffordd os oedd car neu fws yn dod. Un o'n hoff chwaraeon ni oedd chwarae '*Convoys*'. Cofiwch mai adeg y Rhyfel oedd hi. Mynd rownd y pentref a gofyn yn y tai priodol, os y cawn fynd a'r babi am dro. Cael gymaint o fabis mewn bob math o brams a fedrwn erbyn yr adeg priodol yn y prynhawn, ac wedyn cael dau o'r hogiau oedd gan feics, un ar y blaen ac un y tu ôl fel ' dispatch riders'. Byddem yn mynd wedyn fel neidr hir drwy strydoedd y pentref drwy'r p'nawn, yn ôl ac ymlaen nes erbyn y diwedd, ar '*full-speed*' rownd y comeli, a'r prams ar ddwy olwyn yn trio cadw'i fyny efo'r rhai oedd ar y blaen. Dwi'n sicrhau chwi, 'doedd dim trafferth cael y babis i gysgu'r noson honno. 'Dwi ddim yn cofio i'r un ddamwain ddigwydd 'rioed, trwy drugaredd.

**PRES POCED**

Wedyn, fel bo'r tymor, hel llus, mynd am oriau, a dod yn ôl heb ddim weithiau a'n cegau a'n tafodau yn biws i gyd. Hel '*rosehips*', pan oedd y blodyn wedi mynd, a'r '*hips*' wedi cochi a twchu. Mynd a hwy i'r ysgol a chael dwy geiniog y pwys amdanynt. Mi roeddynt yn creu '*rosehip syrup*' efo'r croen a gwneud '*bandages*' efo'r hada', medda nhw. 'Roeddwn hefyd yn gwneud pres poced drwy fynd a'm cath i'r Becws bob nos, a'i nhôl yn y bore, a chael dau swllt yr wythnos am ei gwasanaeth fel daliwr llygod heb ei hail.

'Roeddem yn giamstars hefyd ar hel poteli gwag, canys caem bres yn ôl am bob potel. Adeg y rhyfel 'roedd gwydr yn rhyfeddol brin, ac 'roedd y siopwr yn codi arian ychwanegol am bob potel oedd yn ei werthu. Byddem yn cael yr arian hynny yn ôl am ddod a'r botel yn ôl i'r gwerthwr. 'Roeddem ni'n gwybod lle'r oedd un o'r siopwrs yn cadw'i boteli a byddem yn mynd yn slei i nôl potel neu ddwy weithiau, a mynd a hwy yn ôl yr eilwaith. Ac 'roeddem yn gwybod i beidio a mynd yn rhy aml hefyd rhag tynnu sylw. Wedyn, fel llawer un arall o ddarllenwyr *Yr Angor* mae'n siwr, yn yr Hydref byddem yn hel i fynd i ddwyn afalau, neu eirin, i berllan rywun neu'i gilydd, os oeddent yn barod i'w bwyta neu ddim.

Un diwrnod Gwynfor yn deud wrthym am fod yn barod erbyn deg o'r gloch yn y bore'r diwrnod wedyn. Mae'n rhaid mai dydd Sadwrn oedd, a'n bod yn mynd i nôl *Victoria Plums* i rhyw fferm ar gyrion Ysbyty Ifan. 'Roedd Ysbyty Ifan, rhyw bum milltir dros y mynydd, i Ddyffryn Eidda. Cael ar ddallt nad oedd neb yn byw yn y fferm erbyn hyn, a bod y *Victoria Plum*s yn gymaint ac afalau. Y bore wedyn, i ffwrdd a ni, mynd i fyny am y mynydd. 'Roedd tua saith ohonom ac yn griw hwyliog yn mynd i fyny heibio Penffridd a Stabl Mêl, ac i'r mynydd. Pan oeddem wedi cyrraedd tua hanner ffordd, dod at gae mawr agored a hwnnw'n llawn o heffrod a bustuch cadw, ugeiniau ohonynt. Cael cyfarfod wedyn i benderfynu, ai mynd trwy'r cae neu mynd rownd fyddai orau. Roedd rhai ohonom ofn yn barod. Gwynfor yn penderfynu mai mynd drwy y cae fyddai oreu a byddai mynd rownd yn cymeryd gormod o amser. Felly y bu hi a thros y ffens a'r weiran arni. Mewn rhyw ychydig amser ar ôl inni fynd drosodd, dyma un o'r heffrod yn sefyll ei thir, ac yn gwrthod symyd o'r ffordd. Dyma Gwynfor, pwy arall, yn tynnu hances poced allan, ac yn dechreu chwarae '*bullfighter*' efo'r heffar. Ond 'doedd gan yr heffar hon ddim ofn yr un picador, a dyma hi'n rhoi ei phen i lawr a rhedeg amdanom. Panics … 'Roedd hon o ddifrif, a dyma ni ffwrdd am y ffens, a drosodd a ni.. i gyd heblaw Derek. Cafodd Derek druan ei ddal a'i daflu i'r llawr ganddi. Buasai yn sicr o gael ei frifo yn ddrwg ond i Aled Penffridd droi yn ei ôl a sticio'i gyllell boced yn y greadures hyd nes yr aeth i ffwrdd. 'Roedd Derek yn fwd i gyd ac yn methu siarad gymaint a oedd wedi dychryn. Wedi ei gael dros y weiren, 'roedd wedi colli un o'i 'sgidiau, a dim un ohonom yn barod i fynd yn ôl i chwilio amdani. Felly aethom ni a fo adref, hanner ei gario, a hanner ei lusgo. Mi fu iddo fethu siarad am bythefnos ac 'roedd yn rhaid iddo gael meddyginiaeth cyn iddo wella. Chafodd o byth chwarae efo ni wedyn, ac aeth y teulu i fyw i Lanfair-Caereinion yn fuan wedyn. Oh! chawsom ni ddim un o'r '*Victoria Plums'* mawr, rheini oedd i'w cael am ddim yn Ysbyty Ifan. Ysgwn i ydi'r fferm a'r berllan yn dal yno. Roeddem ni yn 'cymdeithio', sef rhoi tân ar eithin ar ochr y mynydd ers talwm. 'rwy'n cofio mynd unwaith ar ôl ysgol i ochr mynydd y Parc. Cael hwyl iawn a bod wrthi am rhyw awr neu ddwy. Cyn gorffen mynd i chwilio am gôt Robert Selyf, 'roedd wedi cael blazer newydd ac wedi ei thynnu, rhag ofn cael hogla mwg arni. Chwilio yn ofer amdani 'roedd wedi cael ei llosgi'n wenfflam yn y tân. Wel sôn am grio ar y ffordd adre, a gofyn inni, "Beth 'dwi'n mynd i ddeud wrth Mam?"

Amser arall, a hithau wedi tywyllu yn go gynnar, criw ohonom yn siarad a'n gilydd yn ymyl Gwesty'r Machno. Clywed twrw rhyfedd yn dod i lawr yr allt. Sŵn Now Squash yn dod i'r pentref ar ei feic. 'Doedd ganddo byth frêcs ar ei feic, a'r ffordd oedd yn brecio oedd rhoi ei droed ar y 'mudguard', a'i phwyso ar y teiar, a dyna oedd y twrw. Now'n cyrraedd ac yn dweud, "Mynd am hêrcut at Wil Dafis ydw'i." 'Roedd Yncl Davis yn gweithio yn y ffatri yn y dydd ac yn trwsio 'sgidia' a thorri gwallt gyda'r nos, mewn cwt ar waelod yr ardd. Tair ceiniog oedd pris yr 'hêrcut'. Wel dyma Gwynfor yn deud, "Come on," ac i ffwrdd â ni. 'Roedd 'na allt a throiad go ddrwg ar y ffordd i gwt Yncl Davis a giât ddwbl, fel arfer yn llydan agored ar waelod y troiad. Ni fyddai'r giat byth wedi cau, 'roedd ei gwaelod wedi tagu yn y gwair fel arfer. Y

peth cyntaf wnaethom oedd dragio'r giât oddi wrth y gwair, a'i chau. Yna aethom drosodd i gae Robert Jôs, a disgwyl. Cyn hir clywed Now yn dod tan wislo, ac wedyn twrw'r beic yn hitio'r giat, a Now yn disgyn i'r llawr. Ninnau'n chwerthin, a Now yn gweiddi, "Hogyn Gut Morris, mi blydi lladdai 'di, pan ddaliai 'di." Diwrnod arall ninnau yn sefyll a dim byd i'w wneud. 'Roedd hi wedi bwrw eira ac 'roedd trwch go-lew ar y llawr. Gwynfor yn deud "Come on," a dyma ni off ar ei ôl. I fyny ffordd 'Lasgwm â ni. "Mae hi'n Nos Fercher," meddai, "ac mae hi'n noson Cyfarfod Gweddi capel y Methodistiaid Calfinaidd, gwnewch gymaint o fops a fedrwch," meddai, "fydda nhw'n dwad allan yn y munud." A dyma ni yn disgwyl ac fel oedd rhywun yn trio agor y drws 'roeddem ni yn taflu mops eira fel 'roedd yn rhaid iddynt gau y drws a disgwyl nes trio wedyn, a chwaneg o fops yn landio yn erbyn y drws. Mi fuo nhw yn y festri yn disgwyl am hir nes oedd ein mops wedi gorffen. Dyna ichwi beth oedd hwyl. Os oeddem ni'n bôrd, 'roeddem yn siwr o ffeindio rhywbeth i'w wneud.

Pan oedden ni'n blant tua diwedd yr Ail Ryfel Byd a'r cyfnod ar ôl hynny, 'roedd 'na ddwsin a mwy o siopau yn y pentref, ac felly 'roedd y Dyffryn yn hollol hunan gynhaliol o ran cael moethau byw o'r siopau lleol. Un o'r siopau hynny oedd Siop Ffrwythau Haydn. 'Roedd Haydn yn ogystal yn gwerthu pysgod yn yr un siop. 'Doedd 'na ddim dŵr rhedeg yn y siop. Ac felly byddai dim modd i Haydn olchi ei ddwylo o gwbl. 'Roedd ganddo liain sychu dwylo, o ryw fath wedi ei osod ar hoelen, a hwnnw erioed wedi cael ei newid. Felly 'roedd blas pysgodyn ar bob dim a allech brynu yno. 'Roedd gan Haydn fan fawr yn cario allan, a byddai'n mynd o amgylch y pentrefi cyfagos i werthu ei gynnyrch. 'Rwy'n cofio unwaith, a dwi'n gaddo ichwi fod hyn yn wir. Daeth Haydn yn ôl o rywle unwaith, a drws y tu ôl i'w fan yn agored, a dafad yn y cefn yn bwyta rhan o'i gynnyrch.

*(i'w barhau)*

# YR HEN SUL CYMREIG

Go brin fod neb o dan hanner cant yn cofio yr hen Sul Cymreig pan oedd pob tafarn yn y Gymru wledig ar gau a phwysig oedd cadw'r Sul mor ddi-waith ag oedd bosibl. Treuliai cenhedlaeth ein teidiau yr holl wythnos i ymbaratoi ar gyfer dyletswyddau'r Sul. Credid yn gydwybodol: 'Cofia gadw'n Sanctaidd y dydd Saboth'. Yr oedd gan y Sul ei gyfaredd ei hun a digon o weithgarwch, oedfaon bore a nos ac Ysgol Sul yn y pnawn.

Aed ati yn arbennig ar y ffermydd i dacluso a pharatoi ar gyfer y diwrnod mawr, a gosod digon o fwyd, dogn dau ddiwrnod yn rhesel y lloi a phresebau'r beudy a'r stabal ac i dŷ'r ieir. Diwrnod o orffwys ac i addoli ac i addysgu ac i gymdeithasu oedd y Sul, diwrnod i lawenhau a chlodfori y Creawdwr ar gân. Gorffennai'r merched waith y Sadwrn drwy lanhau esgidiau'r dynion, a'u gosod i sychu ar silff y gegin gefn. Byddent yn disgleirio ar gyfer y daith i Seion a Bethel.

Gorchwyl gŵr y tŷ a'r meibion a'r gweision ar ddiwedd gwaith a gorchwylion y Sadwrn oedd siafio. Byddai'n ofynnol siafio ar nos Sadwrn gan fod gormod o berygl i gyflawni'r weithred honno ar fore Sul a hwythau i fod yn y Capel neu'r Eglwys cyn deg o'r gloch. Byddai siafio ar fore Sul yn peryglu'r gŵr a'i wyneb a thynnu gwaed o fôn y glust neu waelod yr ên.

Gan nad oedd Noson Lawen ar y teledu na Hywel Gwynfryn i'w diddanu byddai gwraig y tŷ yn noswylio yn weddol gynnar, rywdro ar ôl naw, a'r weithred olaf o'i heiddo oedd gosod coler a chrys gwyn y gŵr i galedu ar y lein uwchben y tân. Yr oedd y Sul yn ddiwrnod i'r teulu, yr unig ddiwrnod lle na chyflawnid dyletswyddau a fedrai gael ei gohirio i ddiwrnod arall. Dim ond yr hyn oedd yn wir angenrheidiol a wnaed ar ddiwrnod mynychu'r addoldai.

## I BEN A MEINWEN

*Wedi gwibio mae'r blynyddoedd,*
*Ers mis Awst chwe deg tri.*
*Mae'n rhaid eich bod yn cofio,*
*Y dydd pwysig, siŵr i chi.*

*Llywelyn a Rees yn uno*
*Mewn serchus can i'ch dau.*
*Cariad na phyla amser*
*Mae'r un wefr yn parhau.*

*O hyn rwy'n eitha' sicr,*
*Maen amlwg, mi gredaf yn daer,*
*Felly gadewch i ni eich llongyfarch,*
*Ar gyrraedd eich priodas aur.*

**Pob bendith i chi a'r teulu.**

**David Williams (Karslake).**

**RYSAIT Y MIS**

## CACEN SIMNEL

***Cynhwysion:***
6 owns o fenyn
6 owns o siwgr brown meddal
3 ŵy
6 owns o flawd plaen
2 llond llwy de o speis cymysg
1 llwy de o bowdr codi
2 lwy fwrdd o laeth
10 owns o ffrwythau sych cymysg
2 owns o geirios
Croen 1 oren neu lemwn
2 owns o almonau wedi'u malu
1 pwys o farsipan

***Dull:***
1. Cynheswch y ffwrn i 160c neu 140c ffan.
2. Irwch a leiniwch dun 7"
3. Rhowch y cynhwysion uchod mewn bowlen a'u cymysgu'n dda am tua 3 munud.
4. Rhowch hanner y gymysgedd yng ngwaelod y tun.
5. Rholiwch 6 owns o farsipan yn gylch o tua 7 modfedd, a rhowch dros y gymysgedd, yna gwasgarwch weddill y gymysgedd dros y marzipan, a llyfnhau'r top gyda chyllell fflat.
6. Coginiwch yn y ffwrn am tua 2 awr.
7. Gadewch hi yn y tun am chwarter awr, yna trowch allan i oeri.
8. Brwsiwch dop y gacen gyda jam, ac yna rowliwch 6 owns arall o farsipan yn gylch, a'i osod ar dop y gacen.
9. Gwnewch ddeuddeg o beli bychan allan o weddill y marzipan, a'i gosod o amgylch y top.
10. Brwsiwch y top gydag ychydig o wyn ŵy a rhowch yn y ffwrn ar wres o 200c am 2 neu 3 munud i frownio ychydig o'r marzipan.

*(Gosodir deuddeg o beli almond mewn cylch o gwmpas ymyl y gacen i gynrychioli Iesu Grist a'i ddisgyblion. Os felly, mae yna un ar goll – roedd gan Iesu ddeuddeg disgybl, nid unarddeg. Mae'n debyg mai Jiwdas Isgariot y disgybl a fradychodd yr Iesu sydd ar goll).*

## *Gair Byr i'r Darllenwyr, Cyfranwyr, Dosbarthwyr a Theulu'r Angor*

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** - Llawer o ddiolch am haelioni i'r papur bro hwn, papur unigryw iawn yn hanes newyddiaduriaeth Cymraeg 2014. Daliwch i'w gynnal trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl/ Liverpool L19 4UA, a chaiff eich cyfraniad ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn rhifyn nesaf *Yr Angor*.

- ***Pris Yr Angor*** yw £11.00 trwy'r post bob mis o Mehefin ymlaen. Anfoner eich siec i Bwyllgor *Yr Angor*. Hysbyseb – £60 y tudalen; £30 hanner tudalen.

- **RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**
  - **i) Rhifyn Gorffennaf 2014 –** erbyn bore Sadwrn, 31 Mai neu ar y we i benatgarthdrive@talktalk.net neu ben@garthdrive. fsnet.co.uk
  - **ii) Rhifyn Awst/Medi 2014** erbyn bore Mawrth, 1 Gorffennaf i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW.
  - **iii) Rhifyn Hydref 2014** – erbyn nos Sul, 31 Awst, 2014.

- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno bob mis) a Cymry-Lerpwl.co.uk

## CROESO I LENNY



*Llongyfarchiadau i Alyse ac Owen Mathews ar enedigaeth eu mab Lenny Owen ar Ebrill 3ydd. Mae Lenny yn or-ŵyr i Mrs. Olwen Williams, Salford. Braf gweld y llinach yn parhau ymhlith Cymry Manceinion.*

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor, Heathfield Road, Lerpwl 15.*
*Cysodwyd ac argraffwyd gan*
*Aeron Jones, Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn 07729 960484*

# PEARSON COLLINSON

## *TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL*

GWASANAETH EFFEITHIOL -
CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**Prif Swyddfa**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**Swyddfa arall**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

National Association of Funeral Directors Est 1905

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair personol gyda Mr. Alan Hughes ffoniwch 0151 722 1514